

Adran 1

Crynodeb Gweithredol

- 1.1 Mae'r Datganiad hwn yn nodi ein penderfyniadau ynghylch yr arwerthiant o drwyddedau telegraffiaeth ddiwifr i ddefnyddio 790 i 862 MHz (y band 800 MHz) a 2500 MHz i 2690 MHz (y band 2.6 GHz). Bydd y penderfyniadau a nodir yn y datganiad hwn yn dod i rym drwy gyfrwng rheoliadau'r arwerthiant, a chyhoeddir copi drafft o'r rhain gyda'r Datganiad hwn. Wrth wneud y penderfyniadau yn y Datganiad hwn, rydym wedi ystyried ein dyletswyddau statudol a Chyfarwyddyd y Llywodraeth i Ofcom¹ (Y Cyfarwyddyd).
- 1.2 Daw'r Datganiad hwn yn dilyn sawl ymgynghoriad gan Ofcom. Rydym wedi ymgynghori ddwywaith ar yr arwerthiant: y tro cyntaf ym mis Mawrth 2011² (Ymgynghoriad Mawrth 2011) ac eto ym mis Ionawr 2012³ (Ymgynghoriad Ionawr 2012). Rydym hefyd wedi ymgynghori'n benodol ar yr amodau trwydded technegol ym mis Mehefin 2011 (Ymgynghoriad Amodau Trwydded Technegol Mehefin 2011), ac ar gyfodolaeth Teledu Daearol Digidol ar y sbectrwm 800 MHz gyda gwasanaethau symudol, y tro cyntaf ym mis Mehefin 2011 a'r eildro ym mis Chwefror 2012 .
- 1.3 Cawsom ymatebion i'r holl ymgynghoriadau hyn gan randdeiliaid yn mynegi amrediad eang o safbwyntiau ar y materion y gwnaethom ymgynghori yn eu cylch, gan gyflwyno dadansoddiad a thystiolaeth sylweddol yn hynny o beth. Wrth wneud y penderfyniadau a nodir yn y ddogfen hon, rydym wedi ystyried yr holl ymatebion hyn gan randdeiliaid.
- 1.4 Mae'r Datganiad yn cynnwys:
 - i) ein hasesiad o'r gystadleuaeth debygol yn y dyfodol mewn marchnadoedd ar gyfer darparu gwasanaethau cyfathrebu electronig symudol ar ôl cwblhau'r arwerthiant o fandiau 800 MHz a 2.6 GHz, a'n dadansoddiad ynghylch a ddylem roi mesurau priodol a chymesur ar waith yn yr arwerthiant i hybu cystadleuaeth;
 - ii) ein penderfyniadau dilynol ynghylch rheolau'r arwerthiant ac agweddau eraill ar ddyluniad yr arwerthiant;
 - iii) y prisiau cadw y bwriadwn eu defnyddio yn yr arwerthiant;
 - iv) ein penderfyniadau o ran darpariaeth a'r mesurau i hybu argaeledd gwasanaethau band eang symudol y genhedlaeth nesaf yn eang, hynny yw, gwasanaethau data symudol o ansawdd uchel ledled y DU; a'n
 - v) penderfyniadau ar yr amodau technegol ac annhechnegol a gaiff eu cynnwys yn y trwyddedau a roddir. Mae'r rhain yn cynnwys cyfres o amodau dylunio i sicrhau y gellir defnyddio'r band 800 MHz symudol ochr yn ochr â band cyfagos Teledu Daearol Digidol.

¹ Gorchymyn Deddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 2006 (Cyfarwyddiadau i OFCOM) 2010 (O.S. 2010 Rhif 3024) sydd ar gael drwy fynd i: <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2010/3024/contents/made>

² "Consultation on assessment of future mobile competition and proposals for the auction of 800 MHz and 2.6 GHz spectrum and related issues", dyddiedig 22 Mawrth 2011.

³ "Second consultation on assessment of future mobile competition and proposals for the auction of 800 MHz and 2.6 GHz spectrum and related issues", dyddiedig 12 Ionawr 2012.

- 1.5 Mae'r ddogfen hon hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am ein dull gweithredu tebygol ar gyfer adolygu'r ffioedd trwydded blynyddol sy'n daladwy ar ôl yr arwerthiant ar gyfer y trwyddedau 900 MHz a 1800 MHz presennol (ni fyddwn yn gwneud unrhyw benderfyniadau ar y rhain tan ar ôl yr arwerthiant).
- 1.6 Rydym hefyd yn cyhoeddi Memorandwm Gwybodaeth sy'n darparu gwybodaeth i ddarpar fidwyr yn yr arwerthiant.

Ein Dyletswyddau Statudol a'r Cyfarwyddyd

- 1.7 Rydym wedi gwneud y penderfyniadau a nodir yn y Datganiad hwn yn unol â'n dyletswyddau statudol a'r Cyfarwyddyd.
- 1.8 Ein prif ddyletswyddau o dan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 yw hyrwyddo buddiannau dinasyddion, a buddiannau defnyddwyr lle y bo'n briodol, drwy hybu cystadleuaeth. Drwy wneud hynny, mae'n rhaid i ni hefyd (ymhlith pethau eraill) sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r sbectrwm, yn ogystal ag ystyried buddioldeb sicrhau argaeledd a defnydd o wasanaethau trosglwyddo data cyflym ledled y Deyrnas Unedig, buddioldeb annog buddsoddiad ac arloesedd, a'r manteision i ddefnyddwyr o ran dewis, pris, ansawdd y gwasanaethau, a gwerth am arian.
- 1.9 Mae'r Cyfarwyddyd yn mynnu ein bod yn:
- asesu'r gystadleuaeth debygol yn y dyfodol mewn marchnadoedd ar gyfer darparu gwasanaethau cyfathrebu electronig symudol ar ôl cwblhau arwerthiant y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz;
 - ar sail yr asesiad hwnnw o gystadleuaeth, lle credwn y byddai o gymorth, yn rhoi mesurau priodol a chymesur ar waith (a allai gynnwys rheolau sy'n llywio'r arwerthiant) a fydd yn hybu cystadleuaeth yn y marchnadoedd hynny ar ôl cwblhau'r arwerthiant;
 - cynnal arwerthiant o'r bandiau 800 MHz a 2.6 GHz cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl cwblhau'r asesiad cystadleuaeth; ac
 - adolygu'r ffioedd trwydded blynyddol a delir am 900 MHz a 1800 MHz i adlewyrchu gwerth llawn y farchnad gan ystyried yn benodol y symiau a gynigwyd am drwyddedau yn yr arwerthiant 800 MHz a 2.6 GHz.

Hybu cystadleuaeth mewn marchnadoedd symudol ar ôl yr arwerthiant

Penderfyniadau ar hybu cystadleuaeth

- 1.10 Yn ein hymgyngoriad ym mis Ionawr 2012, gwnaethom nodi ein cynigion diwygiedig ar y mesurau y dylem eu gweithredu yn yr ocsiwn er mwyn hybu cystadleuaeth. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'n cynigion yn yr ymgynghoriad hwnnw, rydym yn dal i gredu mai'r brif lefel yn y gadwyn gwerth lle dylem fod yn hybu cystadleuaeth yw ar y lefel cyfanwerthu cenedlaethol. Mae hyn yn cefnogi cystadleuaeth adwerthu yn uniongyrchol, gan fod cyfanwerthwyr cenedlaethol hefyd yn gystadluwyr mawr wrth gyflenwi gwasanaethau adwerthu symudol i ddefnyddwyr, ac yn anuniongyrchol drwy ddarparu mynediad cyfanwerthu i adwerthwyr eraill, megis Gweithredwyr Rhith Rwydwaith Symudol (MVNO). O ganlyniad, rydym wedi penderfynu:

- bydd defnyddwyr yn y DU yn debyg o gael gwell gwasanaethau am brisiau is yn y dyfodol os bydd o leiaf pedwar cyfanwerthwr cenedlaethol credadwy yn dal i fodoli. Felly, byddem yn poeni petaem mewn sefyllfa ar ôl yr arwerthiant lle mae gan lai o weithredwyr fynediad at ddigon o sbectrwm i gystadlu'n gredadwy ar y lefel gyfanwerthu yn y dyfodol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol yn y DU;
- mae'n debyg mai dyma fyddai'n digwydd pe na fyddai Hutchison 3G UK (H3G) neu newydd-ddyfodiad arall yn ennill o leiaf rhywfaint o sbectrwm yn yr ocsiwn.⁴ Heb ymyrraeth, mae yna risg wirioneddol na fyddai H3G na newydd-ddyfodiad arall yn ennill isafswm o sbectrwm yn yr arwerthiant;
- ac ystyried natur a maint y sbectrwm sydd ganddynt ar hyn o bryd, nid ydym yn pryderu cymaint am Everything Everywhere, Telefónica na Vodafone, er y byddant o bosib yn gallu cynnig amrediad ehangach neu well gwasanaethau a chystadlu'n fwy brwd os ydynt yn ennill sbectrwm ychwanegol yn yr arwerthiant;
- felly yn ein barn ni, mae'n briodol neilltuo rhywfaint o'r sbectrwm sydd ar gael yn yr arwerthiant i bedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol, hynny yw, bidiwr arall ac eithrio Everything Everywhere, Telefónica a Vodafone;
- rhaid i fidwyr ar gyfer y sbectrwm a neilltuwyd gystadlu â'i gilydd, ond ar yr amod bod o leiaf un bidiwr o'r fath sy'n barod i dalu'r pris cadw ar gyfer y sbectrwm hwn, mae'r bidiwr hwnnw yn sicr o'i ennill. Rydym wedi nodi isod faint yn union o sbectrwm y credwn sy'n gymesur i'w neilltuo;
- oherwydd lefel a natur y sbectrwm sydd ganddynt ar hyn o bryd, a/neu'r risg is o lawer y bydd y cyfanwerthwyr cenedlaethol hyn yn methu â sicrhau rhagor o sbectrwm yn yr arwerthiant, ni chredwn fod angen neilltuo unrhyw sbectrwm ar gyfer Everything Everywhere, Telefónica na Vodafone;
- rydym hefyd o'r farn y byddai'n briodol ac yn gymesur i bennu cyfyngiadau ar faint o sbectrwm y gall pob bidiwr ei brynu yn yr arwerthiant, fel bod cyfanswm y 'sbectrwm symudol' sydd ganddynt yn gyffredinol, a'r 'sbectrwm symudol' o dan 1GHz yn benodol, yn ddim uwch na throthwyon diogelu penodol. Mae hyn er mwyn lleihau'r risg y bydd daliadau sbectrwm anghymesur iawn ar ôl yr arwerthiant gan arwain at lai o ddwysedd cystadleuol.

Mesurau penodol i hybu cystadleuaeth mewn cyfanwerthu cenedlaethol

- 1.11 Yn ymgynghoriad Ionawr 2012, gwnaethom gynnig y capiau diogelu canlynol:
- cap sbectrwm cyffredinol o 2 x 105 MHz; a
 - cap sbectrwm o dan 1GHz o 2 x 27.5 MHz.
- 1.12 Ar sail yr ymatebion i ymgynghoriad Ionawr 2012 a'n dadansoddiad pellach ni, rydym yn dal i gredu bod y capiau hyn briodol ac yn gymesur. Felly, rydym wedi penderfynu pennu capiau'r sbectrwm diogelu ar y lefelau hyn.
- 1.13 Mae'r capiau hyn yn cynnwys yr holl sbectrwm yn yr arwerthiant a'r daliadau sbectrwm symudol presennol (h.y. daliadau ar 900 MHz, 1800 MHz, a 2.1 GHz, ac eithrio'r sbectrwm heb bâr 2.1 GHz oherwydd nad oes defnydd masnachol i'r sbectrwm hwnnw yn y DU nac yn Ewrop ar hyn o bryd, cyn belled ag y gwyddom).

⁴ Oni bai eu bod yn cael gafael ar ddigon o sbectrwm mewn ffordd arall cyn yr arwerthiant.

- 1.14 Yn ymgynghoriad Ionawr 2012, gwnaethom hefyd ystyried nifer o ddewisiadau o ran faint o sbectrwm ac amleddau'r sbectrwm y dylid ei neilltuo ar gyfer y pedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol. Yna, gwnaethom nodi'r grwpiau penodol o bortffolios a fyddai'n gymesur yn ein barn ni
- 1.15 Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion i ymgynghoriad Ionawr 2012, ac ar ôl gwneud dadansoddiad pellach, rydym wedi penderfynu y dylem wneud rhai newidiadau i'r portffolios. Gweler Tabl 1 isod sy'n dangos y portffolios rydym wedi penderfynu eu neilltuo ar gyfer y pedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol.

Tabl 1: Portffolios sbectrwm ar gyfer y pedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol

| Portffolio | 800 MHz | 1800 MHz | 2.6 GHz |
|------------|------------|------------|------------|
| 1 | 2 x 15 MHz | | |
| 2 | 2 x 10 MHz | | 2 x 10 MHz |
| 3 | 2 x 5 MHz | 2 x 15 MHz | |
| 4 | | 2 x 15 MHz | 2 x 20 MHz |

- 1.16 Rydym o'r farn y byddai unrhyw un o'r portffolios hyn yn debygol o fod yn ddigonol i alluogi pedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol i fod yn gystadleuydd credadwy.
- 1.17 Mae'n bwysig nodi nad ydym yn rhoi'r un gwerth i bob portffolio a chaiff hynny ei adlewyrchu ym mhrisiau'r arwerthiant. Mae'n debyg y bydd gwerthoedd gwahanol ar y portffolios yn yr arwerthiant yn rhannol oherwydd bydd costau lleoli rhwydweithiau yn wahanol ym mhob achos. Yn yr un modd, nid ydym yn ystyried bod y portffolios o reidrwydd yn adlewyrchu'r un modelau busnes lle gallai cyfanwerthwyr cenedlaethol gystadlu. Yn hytrach, rydym ni o'r farn petai pedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol yn dal unrhyw un o'r portffolios hyn, byddai ganddo ddigon o sbectrwm i allu bod yn gyfanwerthwr cenedlaethol credadwy.

Hybu mynediad newydd i weithredwyr is-genedlaethol

- 1.18 Yn ein hymgyngoriad ym mis Ionawr 2012, gwnaethom ddweud y byddem o blaid neilltuo 2x10 MHz o sbectrwm 2.6 GHz at ddefnydd pŵer isel a rennir i weithredwyr Rhwydweithiau Mynediad Radio is-genedlaethol. Serch hynny, gwnaethom gyfaddef fod hyn yn anodd.
- 1.19 Ar sail yr ymatebion i ymgynghoriad Ionawr 2012 a'n dadansoddiad pellach, rydym wedi penderfynu peidio â neilltuo sbectrwm at ddefnydd o'r fath, oherwydd y costau eithaf sicr a sylweddol o wneud hynny o'i gymharu â'r manteision mwy ansicr a fyddai'n deillio o hynny. Er ei bod yn bosibl y gallai mynediad gan weithredwyr is-genedlaethol arwain at fanteision sylweddol i ddefnyddwyr, nid oes sicrwydd yn hyn o beth. Ar y llaw arall, mae'n ymddangos bod yna gost benodol i neilltuo sbectrwm, sef y gost o wrthod mynediad at y sbectrwm ar gyfer ei ddefnyddio ar bŵer safonol i gynyddu capasiti a chyfraddau data cyfartalog uwch, ac o bosib, mewn rhai achosion, cyflwyno rhwydweithiau LTE (os nad oes sbectrwm arall ar gael i gyfanwerthwr cenedlaethol penodol).
- 1.20 Rydym felly wedi penderfynu y bydd yn rhaid i'r rheini sy'n dymuno prynu sbectrwm at ddefnydd pŵer isel gystadlu yn erbyn y rheini sy'n dymuno ei ddefnyddio ar gyfer defnydd pŵer safonol. Rydym yn pennu rheolau penodol yn yr arwerthiant i ganiatáu ar gyfer y gystadleuaeth hon drwy gydgrynhoi'r cynigion a wneir gan fidwyr pŵer isel.

Hybu argaeledd eang o wasanaethau symudol yn y dyfodol ar gyfer dinasyddion a defnyddwyr

- 1.21 Yn ymgynghoriadau mis Mawrth 2011 ac Ionawr 2012, gwnaethom gydnabod bod rôl bwysig gan yr arwerthiant sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz o ran hybu argaeledd gwasanaethau symudol yn eang yn y dyfodol yn y DU. Gwnaethom awgrymu y byddai ein cynigion i hybu cystadleuaeth yn debygol o yrru argaeledd eang. Fodd bynnag, roeddem yn teimlo y dylid ategu hyn gan ddyletswydd yn ymwneud ag isafswm darpariaeth er mwyn sicrhau y byddai gwasanaeth band eang symudol yn y dyfodol yn cael ei ddarparu i gyfran sylweddol o ddinasyddion a defnyddwyr o fewn amserlen resymol.
- 1.22 Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaeth i law a'r dadansoddiad pellach a wnaethom, rydym wedi penderfynu cynnwys dyletswydd darpariaeth yn un o'r trwyddedau 800 MHz. Bydd y ddyletswydd yn cael ei gosod ar 2 x 10 MHz o sbectrwm. Bydd yn mynnu bod deilydd y drwydded yn darparu gwasanaeth band eang symudol dan do i ddefnyddwyr mewn ardal lle mae 98% o boblogaeth y DU yn byw⁵. Rydym yn rhagweld y byddai hyn yn debygol o arwain at gynnig darpariaeth yn yr awyr agored mewn ardal lle mae dros 99.5% o boblogaeth y DU yn byw.
- 1.23 Yn ogystal â gosod y gofyniad uchod o ran darpariaeth ledled y DU, rydym hefyd wedi penderfynu bod rhaid i'r un deilydd trwydded ddarparu'r un gwasanaeth i ardal lle mae o leiaf 95% o boblogaeth pob gwlad unigol yn byw. Rydym o'r farn y byddai rhwydwaith sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon yn debygol o ddarparu signal yn yr awyr agored i ardal lle mae 98-99% o boblogaeth pob gwlad yn byw.
- 1.24 Bydd angen cyflawni'r ddwy ddyletswydd erbyn 31 Rhagfyr 2017. Credwn y byddant yn sicrhau bod bron pob defnyddiwr a dinesydd y DU yn cael rhywfaint o fynediad at wasanaethau band eang symudol y genhedlaeth nesaf o fewn amserlen gymharol gyflym, a fydd yn esgor ar fanteision sylweddol i ddinasyddion a defnyddwyr.
- 1.25 Rydym wedi penderfynu y byddai'n gymesur i gynnwys y dyletswyddau darpariaeth hyn mewn un drwydded yn unig. Er ein bod yn cydnabod bod cael dewis o ddarparwyr yn werthfawr i ddefnyddwyr, nid ydym yn ystyried ei fod yn gymesur yn y cyd-destun hwn i wneud hynny drwy reoleiddio. Credwn ei fod yn gwbl bosibl y bydd cystadleuaeth ymysg darparwyr yn golygu y bydd gweithredwyr nad ydynt yn rhwym wrth ddyletswydd o ran darpariaeth yn adeiladu rhwydweithiau gyda darpariaeth debyg beth bynnag. At hynny, hyd yn oed os na fydd cystadleuaeth o'r fath yn datblygu am beth amser neu'n gyfan gwbl, ni chredwn fod yna risg ddifrifol y bydd defnyddwyr yn yr ardaloedd a wasanaethir yn unig gan ddeilydd y drwydded gyda dyletswydd darpariaeth yn wynebu prisiau afresymol o uchel, ac ystyried yr arfer cyffredinol o brisio'n genedlaethol.
- 1.26 Rydym hefyd wedi penderfynu na fyddai'n gymesur i osod dyletswydd mynediad ar ddeilydd y drwydded sydd â dyletswydd darpariaeth. Credwn y gallai hyn fod yn niweidiol i'r cymhellion i fuddsoddi a byddai'n anodd ei bennu, o gofio'r angen i adnabod yr ardaloedd perthnasol. Gallai hefyd arwain at brofiad gwael i ddefnyddwyr yn absenoldeb dyletswyddau technegol sydd wedi'u diffinio'n gaeth ac sy'n debygol o fod yn gostus ac yn gymhleth.

⁵ Dylai'r ddyletswydd alluogi defnyddwyr yn y rhan fwyaf o gartrefi yn yr ardal dan sylw i dderbyn gwasanaeth dan do o 2Mbps. Fodd bynnag, mae ansawdd y derbyniad dan do yn dibynnu i raddau helaeth ar adeiladwaith yr adeilad, ac mewn rhai achosion, petai'r adeiladwaith yn heriol ac mewn lleoliadau anodd eu cyrraedd, efallai na fydd yn bosib derbyn gwasanaeth dan do o'r ansawdd a bennwyd.

Materion eraill

Pecynnu sbectrwm a dyluniad yr arwerthiant

- 1.27 Mae'r Datganiad hwn hefyd yn amlinellu ein penderfyniadau ar sut bydd y sbectrwm yn cael ei becynnu a rheolau'r arwerthiant.
- 1.28 Yn ymgynghoriad Ionawr 2012, gwnaethom nodi dau ddewis ar gyfer strwythur y lotiau ar gyfer y band 800 MHz gan awgrymu ein bod yn ffafrio'r dull symlach. Ond gwnaethom nodi fod mabwysiadu'r dull hwnnw'n dibynnu ar ein penderfyniadau ynghylch cydfodolaeth Teledu Daearol Digidol. Ar sail y penderfyniadau a nodir yn y Datganiad hwn ynghylch cydfodolaeth Teledu Daearol Digidol, rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r strwythur symlach ar gyfer lotiau. Mae hyn yn golygu y bydd dau fath o lot yn yr arwerthiant ar gyfer sbectrwm yn y band 800 MHz; un ar gyfer y lot 2 x 10 MHz gyda'r ddyletswydd darpariaeth, a'r llall ar gyfer gweddill y sbectrwm (mewn lotiau o 2x5 MHz).
- 1.29 O ran y band 2.6 GHz, rydym wedi penderfynu mabwysiadu'r dull a nodwyd gennym yn ymgynghoriad Ionawr 2012 oherwydd cafwyd cefnogaeth eang i hynny yn yr ymatebion. Felly, caiff y sbectrwm pâr ei becynnu mewn lotiau 2 x 5 MHz a'r sbectrwm heb bâr ei becynnu mewn lotiau 5 MHz.
- 1.30 Yn unol â'n cynigion yn ymgynghoriadau Mawrth 2011 ac Ionawr 2012, rydym wedi penderfynu defnyddio arwerthiant cloc cyfuniadol i werthu'r sbectrwm. Yn y Datganiad hwn, rydym yn nodi'r penderfyniadau manwl ar gyfer rheolau'r arwerthiant. Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad a'n hystyriaeth bellach o'r materion, rydym wedi gwneud rhai newidiadau i'r rheolau manwl a nodir yn ymgynghoriad Ionawr 2012, lawer ohonynt er mwyn symleiddio'r arwerthiant.

Prisiau cadw

- 1.31 Yn y Datganiad rydym yn amlinellu ein safbwynt arfaethedig ar brisiau cadw. Byddwn yn gwneud penderfyniad terfynol ar brisiau cadw pan fyddwn yn llunio rheoliadau'r arwerthiant.
- 1.32 Mae Tabl 2 isod yn nodi ein cynigion ar gyfer pob math o lot yn yr arwerthiant.

Tabl 2: Prisiau Cadw Arfaethedig

| Categori Lot | A(i) | A(ii) | B | C | D(i) | D(ii) | E |
|--------------|--------------------|--|--|---|---|---|----------------------------------|
| | 800 MHz 2x5 MHz | 800 MHz 2x10 MHz (gyda dyletswydd darpariaeth) | 1800 MHz 2x15 MHz (Sbectrwm Ymwrthod) | 2.6 GHz 2x5 MHz (pŵer safonol) | 2.6 GHz 2x10 MHz (pŵer isel a rennir) | 2.6 GHz 2x20 MHz (pŵer isel a rennir) | 2.6 GHz 5 MHz (heb bâr) |
| Cynnig Ofcom | £225m | £250m | £225m | £15m | £3m y bidiwr, trothwy £30m | £6m y bidiwr, trothwy £60m | £0.1m |

- 1.33 Wrth bennu'r prisiau cadw hyn, rydym wedi pwyso a mesur nifer o risgiau, gan gynnwys (i) y risg na fyddai pedwerydd cyfanwerthwr cenedlaethol yn ennill y

sbectrwm er y byddai hynny er budd defnyddwyr, (ii) y risg na fydd y sbectrwm yn cael ei werthu ac felly ni fyddai'n cael ei ddefnyddio'n gynhyrchiol, a (iii) risgiau amrywiol y gallai bidwyr ymddwyn mewn ffordd a fyddai'n lleihau effeithlonrwydd yr arwerthiant e.e. drwy gydgyllwynio neu leihau eu galw yn artiffisial.

- 1.34 Rydym wedi seilio ein prisiau cadw arfaethedig ar dystiolaeth o'r prisiau a dalwyd mewn arwerthiannau mewn gwledydd eraill ar gyfer yr un sbectrwm neu sbectrwm tebyg. Er mwyn ein cynorthwyo yn y dasg hon, gwnaethom gomisiynu Dotecon ac Aetha i gynnal astudiaeth i brisio'r sbectrwm a gwneud argymhellion ar brisiau cadw. Rydym yn cyhoeddi fersiwn nad yw'n gyfrinachol o'u hadroddiad ochr yn ochr â'r Datganiad hwn.

Amodau trwydded

- 1.35 Mae'r Datganiad yn nodi ein penderfyniadau ar amodau'r drwydded ar gyfer defnyddio'r sbectrwm 800 MHz a 2.6 GHz. Bydd y penderfyniadau hyn yn ystyried yr ymatebion a gawsom i'n hymgyngoriad ym mis Mawrth 2011 ac ymgynghoriad Amodau Trwydded Technegol mis Mehefin 2011.
- 1.36 Rydym wedi penderfynu y bydd y trwyddedau yn rhai DU gyfan ac yn dechnolegol ac yn wasanaeth niwtral. Bydd hawl gwneud pob math o fasnachu sbectrwm gyda thrwyddedau pŵer safonol unigol, yn amodol ar adolygiad o effaith y masnachu arfaethedig ar gystadleuaeth. Yn achos trwyddedau pŵer is cydamserol ar 2.6 GHz (os o gwbl), dim ond y mathau hynny o fasnachu nad ydynt yn cynyddu nifer y deiliad trwydded yn y band fydd yn cael eu caniatáu. Bydd trwyddedau yn para am gyfnod amhenodol, hyd nes y cânt eu hildio neu eu diddymu. Yn ystod cyfnod cychwynnol o 20 mlynedd, bydd ein pwerau i ddiddymu trwydded yn cael eu cyfyngu i amodau penodol, ac ni fyddant yn cynnwys pŵer i ddiddymu am resymau rheoli sbectrwm. Ar ôl hynny, byddwn yn gallu diddymu trwydded am resymau rheoli sbectrwm gyda rhybudd o bum mlynedd.
- 1.37 Mae'r amodau technegol yn adlewyrchu amodau Ewropeaidd a gysonwyd yn ogystal â darpariaethau ychwanegol i ddelio â materion ymyrraeth penodol, sef y risg o ymyrraeth i radar sy'n gweithredu yn y band 2.7 GHz, a'r trefniadau interim i reoli'r risg o ymyrraeth i ddefnydd Teledu Daearol Digidol o'r band 800 MHz cyn y bydd y newid i'r digidol a'r clirio wedi'i gwblhau. Ceir hefyd amodau i reoli'r risg barhaus o ymyrraeth i Deledu Daearol Digidol yn y bandiau cyfagos fel yr esbonnir isod.

Cydfodolaeth Teledu Daearol Digidol

- 1.38 Mae'n bosib y bydd gwasanaethau symudol newydd yn y band 800 MHz yn achosi ymyrraeth i dderbyniad gwasanaethau Teledu Daearol Digidol presennol yn y band cyfagos. Nid yw'r mater hwn yn gyfyngedig i'r DU. Mae gwledydd eraill yn Ewrop sydd â gwasanaethau teledu daearol digidol mewn bandiau gerllaw'r band 800 MHz yn wynebu'r un broblem ac maent yn mabwysiadu amrywiol ddulliau i liniaru risg yr ymyrraeth. Yn y DU, mae ein dadansoddiad technegol yn awgrymu y gallai hyn effeithio ar hyd at 2.3m o gartrefi. Mae tua 900,000 o'r aelwydydd hyn yn dibynnu ar deledu daearol digidol yn unig ar gyfer derbyn teledu digidol.
- 1.39 Ar 2 Mehefin 2011, gwnaethom gyhoeddi ymgynghoriad yn nodi ein cynigion cychwynnol ar gyfer rheoli cydfodolaeth rhwng y gwasanaethau presennol a'r rhai newydd. Gwnaethom nodi fod rhai penderfyniadau'n codi cwestiynau o bolisi cyhoeddus, felly roedd yn fwy priodol bod y Llywodraeth yn hytrach nag Ofcom yn delio â'r rhain.

- 1.40 Ym mis Chwefror 2012, penderfynodd y Llywodraeth sut y dylid rheoli cydfodolaeth. Roedd y rhain yn cynnwys penderfyniadau ar lefel y cymorth a ddarperir i ddefnyddwyr ac ar y corff y byddai'n rheoli'r gwaith hwn (cyfeirir ato yma fel MitCo). Yn yr un mis, gwnaethom gyhoeddi ein hail ymgynghoriad ar gydfodolaeth a oedd yn nodi ein cynigion ar gyfer sut y dylid rhoi'r penderfyniadau hyn ar waith. Cawsom 30 ymateb i'r ymgynghoriad hwn. Tra bod ymatebwyr ar y cyfan yn cefnogi'r dull gweithredu cyffredinol, roedd sawl ymatebydd o'r farn y dylid rhoi rhagor o gymorth i ddefnyddwyr. Cawsom hefyd sylwadau manwl ar y cynigion i sefydlu a llywodraethu MitCo, yn ogystal â'r fframwaith ar gyfer rheoli perfformiad MitCo.
- 1.41 Ym mis Gorffennaf 2012, cyhoeddodd y Llywodraeth ddogfen⁶ a oedd yn cadarnhau'r penderfyniadau a wnaed ym mis Chwefror ac yn rhoi esboniadau pellach ar feysydd manwl. Ymhlith pethau eraill, maent yn awr wedi penderfynu sicrhau darpariaeth ychwanegol i gynorthwyo'r cartrefi hynny sy'n debygol o gael yr anhawster mwyaf i osod hidlydd eu hunain. Bydd gofyn i ddeiliaid trwydded 800 MHz neilltuo £12m o'r cyfanswm o £180m a ddyrannwyd ar gyfer rheoli cydfodolaeth i ddarparu cymorth i'r cartrefi hyn ar gyfer gosod y cyfarpar. At hynny, mae'r Llywodraeth wedi penderfynu ymhellach y dylai unrhyw danwariant o'r £180m gael ei ddychwelyd yn llawn i ddeiliaid y drwydded 800 MHz, yn hytrach na'i rannu'n gyfartal rhwng deiliaid y drwydded a'r Llywodraeth.
- 1.42 Gan ystyried yr ymatebion a'r trafodaethau pellach gyda rhanddeiliaid a'r Llywodraeth, rydym bellach wedi gwneud penderfyniadau ar y fframwaith a ddefnyddir ar gyfer gweithredu penderfyniadau'r Llywodraeth. Mae hyn yn cynnwys y gyfres derfynol o ddangosyddion perfformiad allweddol (KPIs) a'r amodau cysylltiedig a ddefnyddir i reoli perfformiad MitCo. Nodir y rhain yn y trwyddedau a gaiff eu cyhoeddi ar ôl yr arwerthiant.

Ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz

- 1.43 Mae'r Cyfarwyddyd yn mynnu ein bod yn adolygu lefel y ffioedd trwydded blynyddol ar gyfer y sbectrwm 900 MHz a 1800 MHz ar ôl yr arwerthiant fel eu bod yn adlewyrchu gwerth llawn y farchnad. Mae'n rhaid rhoi sylw arbennig i'r symiau a gynigwyd am drwyddedau yn yr arwerthiant ar gyfer y bandiau 800 MHz a 2.6 GHz.
- 1.44 Byddwn yn ymgynghori ar ein dull o weithredu'r elfen hon o'r Cyfarwyddyd ar ôl yr arwerthiant ac yn gwneud penderfyniadau yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw. Fodd bynnag, credwn y byddai'n ddefnyddiol i randdeiliaid gael rhai trafodaethau cyn yr arwerthiant ar yr agweddau posibl. Felly, rydym wedi rhoi diweddariad ar ein meddylfryd yn y Datganiad hwn.

Y camau nesaf

- 1.45 Law yn llaw â'r Datganiad polisi hwn rydym yn cyhoeddi copi drafft o reoliadau'r arwerthiant sy'n rhoi ein penderfyniadau mewn grym. Rhaid i Ofcom wneud hyn er mwyn cynnal yr arwerthiant. Rydym hefyd yn cyhoeddi Memorandwm Gwybodaeth a'r trwyddedau drafft a gaiff eu rhoi ar ôl yr arwerthiant. Rydym yn bwriadu diweddarau'r Memorandwm Gwybodaeth a'r trwyddedau drafft, fel y bo'n briodol, cyn dechrau'r arwerthiant er mwyn sicrhau bod gan ddarpar fidwyr y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael iddynt ar y pryd. Byddwn hefyd yn ymgynghori ar yr offerynnau statudol ac yn llunio rhai newydd gan ddiwygio (i) rheoliadau masnachu'r sbectrwm symudol, (ii) y gorchymyn cyfyngiadau, a (iii) rheoliadau'r gofrestr, i roi'r penderfyniadau yn y Datganiad hwn mewn grym cyn yr arwerthiant.

⁶<http://www.culture.gov.uk/images/publications/letter-dcms-ofcom-10072012.pdf>

- 1.46 Bydd yr ymgynghoriad ar reoliadau drafft yr arwerthiant yn dod i ben ar 11 Medi 2012. Ar ôl ystyried yr ymatebion rydym yn bwriadu llunio'r rheoliadau yn yr hydref. Rydym yn disgwyl gwahodd ceisiadau i gymryd rhan yn yr ocsiwn cyn diwedd 2012.